# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 20FED MEDI, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

(Dosbarthwyd 12/9/16)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Gweno Glyn |
| E. Selwyn Griffiths | Annwen Hughes |
| Charles Wyn Jones | Dilwyn Morgan |
| Michael Sol Owen | Sedd Wag - Plaid Cymru |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Thomas G. Ellis |
| Jean Forsyth | Anne Lloyd Jones |

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Jason Humphreys |

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn ar gyfer 2016-17

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar Mawrth 22ain 2016 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** 9 - 22

I gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau

**7. ETHOLIADAU 2017** 23 - 32

Diweddaru aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau diweddaraf a gwaith y grŵp ffocws etholiadau Llywodraeth Lleol (Mai 2017).

**8. DIWEDDARIAD GAN YR IS-GRWP AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH** 33 - 37

Cyflwyno diweddariad o waith yr is-grwp amrywiaeth.

**9. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** 38 - 43

Cyflwyno diweddariad i'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

**10. CYRFF ALLANOL** 44 - 54

Cynnig trefn safonol ar gyfer adrodd yn ol ar waith cyrff allanol.

**11. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU** 55 - 61

Diweddaru'r Aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015/16 a chynnal trafodaeth fuan am y cyfleoedd a'r rhwystrau at 2016/17.

**12. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2016-17** 62 - 64

Cyflwyno rhaglen waith ddraft ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor er mwyn blaen-raglennu gwaith y flwyddyn.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 22 MAWRTH 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tom Ellis (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Anwen Davies, Lesley Day, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Bryn Goodman Jones (Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cefnogol Technoleg Gwybodaeth), Gwyn Jones (Arweinydd Tîm Rhwydwaith, Gweinyddwr, Cymwysiadau a Diogelwch) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Jason Humphreys.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2015 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2015-16**

Cyflwynwyd – drafft o'r adroddiad blynyddol sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 12 Mai, 2016 yn rhoi diweddariad i aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i aelodau, y datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Bod gwerth ar y cyfan i'r fforymau ardal fel cyfrwng i aelodau dderbyn gwybodaeth a mynegi barn ar wahanol faterion, ond bod angen i swyddogion gyfyngu ar hyd eu cyflwyniadau.
- Angen mwy o hyfforddiant i'r aelodau ar ddefnyddio Modern.Gov. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cymorthfeydd, cyn neu ar ôl y fforymau ardal, i fynd drwy'r anawsterau.
- Angen tynnu sylw'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth at y broblem gyda lled band yn ystafelloedd cyfarfod y Cyngor, yn arbennig dros amser cinio.
- Bod cadeiryddion cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal trwy fideo-gynhadledd yn dueddol o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghaernarfon, gan ddiystyru pobl yn y lleoliadau eraill. Awgrymwyd bod rôl i'r is-gadeirydd fod yn cadw golwg ar y drafodaeth.
- Gall mynediad o bell fod o ddefnydd i aelodau lleol, ymgeiswyr / gwrthwynebwyr sy'n dymuno annerch y Pwyllgor Cynllunio. Nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod yna ystyriaethau cyfansoddiadol ynghlwm â hynny, ond y gellid edrych y mater.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb aros ar ôl ar ddiwedd y cyfarfod i gael sgwrs gyda'r swyddogion ynglŷn â:-

- Rhaeadr, a sut i'w wella;
- Rhaglen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod a chyfle i weld sut mae e-ddysgu yn datblygu.

**4. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017**

Cyflwynwyd – diweddariad ar waith yr Is-grŵp Amrywiaeth ynghyd ag amlinelliad o'r gwaith paratoi a ganlyn ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017:-

- Sesiynau codi ymwybyddiaeth darpar ymgeiswyr;
- Rhaglen anwytho aelodau etholedig yn dilyn etholiad Mai 2017;
- Cyfarpar electroneg.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Pwysigrwydd datblygu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu henwau ymlaen i sefyll etholiad yn 2017.
- Dylid annog y grwpiau gwleidyddol i ystyried arddel system fentora drwy baru cynghorydd newydd gyda chynghorydd mwy profiadol.

Gofynnwyd i'r pwyllgor adnabod 4-5 o aelodau fyddai'n fodlon i'r gwasanaeth ymgynghori â hwy wrth i'r gwaith fynd rhagddo o baratoi ar gyfer y sesiynau codi ymwybyddiaeth, adnabod y rhaglen anwytho a'r rhaglen hyfforddiant ynghyd ag ystyriaethau electroneg.

**PENDERFYNWYD sefydlu grŵp ffocws, yn cynnwys y Cynghorwyr Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Michael Sol Owen, ynghyd ag aelod cabinet, i brofi'r materion uchod wrth i'r datblygiadau fynd rhagddynt.**

**5. TECHNOLEG GWYBODAETH I AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynwyd – diweddariad ar y materion technoleg gwybodaeth a ganlyn:-

- Hyfforddiant llechen;
- Derbyn e-bost cynghoryddxx@gwynedd.gov.uk ar declynnau cludadwy;
- Paratoi at etholiadau 2017.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni:-

- Y cafwyd cadarnhad erbyn hyn fod modd cynnig gwasanaeth ble gall swyddogion ac aelodau etholedig dderbyn / gyrru e-byst swyddogol y Cyngor ar eu ffonau symudol, ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel gan ymlynu at yr amodau y cytunwyd arnynt gyda'r archwilwyr.
- Y byddai cost y feddalwedd fesul dyfais yn £40 yn y flwyddyn gyntaf a £10 y flwyddyn wedi hynny.

**PENDERFYNWYD y dylid cynnig gwasanaeth derbyn / gyrru e-byst cynghoryddxx@gwynedd.gov.uk ar ffôn symudol i unrhyw aelod sy'n dymuno hynny a bod y Cyngor yn derbyn y gost ac yn ei gwneud yn glir i'r aelodau beth yw'r amodau sydd ynghlwm â'r ddarpariaeth.**

## 6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn ceisio barn y pwyllgor ar ddewisiadau o ran cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod cynigion terfynol y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn nesaf yn nodi bod pob cyngor unigol i benderfynu:-

- Gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £29,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£26,000);
- Gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £22,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£20,000).

Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y cadeiryddion pwyllgorau sy'n derbyn cydnabyddiaeth uwch ar hyn o bryd, sef Pwyllgor Craffu (x3), Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Apelau Cyflogaeth, a chadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth uwch, fel y Pwyllgor Pensiynau, y Pwyllgor Iaith a'r pwyllgor hwn.

Nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod y Pennaeth Cyllid wedi tynnu sylw at y ffaith y bu cynnydd sylweddol yng ngwaith Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn sgil sefydlu'r Bwrdd Pensiynau (sy'n dal y Pwyllgor Pensiwn i gyfrif). Hefyd, dros amser, byddai yna dipyn mwy o waith yn digwydd ar lefel ranbarthol yn y maes pensiynau.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod llwyth gwaith y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth wedi gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac y byddai nifer yr apeliadau yn debygol o leihau eto i'r dyfodol wrth i fwy o'r gwaith gael ei wneud gan swyddogion a'r undebau llafur.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni ymhellach y gosodwyd cap ar nifer y cadeiryddion sy'n gallu derbyn cydnabyddiaeth uwch, ac o ychwanegu un cadeirydd at y rhestr, byddai'n rhaid tynnu un arall i ffwrdd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Bod dyletswyddau aelodau Cabinet wedi'u dyrannu i sicrhau cysondeb a llwyth gwaith cytbwys a gallai rhoi aelodau Cabinet ar wahanol lefelau cyflog arwain at gryn gymhlethdod, gan olygu fod symud dyletswyddau o un aelod Cabinet i un arall yn mynd yn anos.
- Bod natur ddaearyddol y sir a'r sialens o ddarparu gwasanaethau ar draws yr ail sir fwyaf yng Nghymru yn ffactor y dylid ei ystyried ar gyfer yr aelodau Cabinet a Chadeiryddion y pwyllgorau.
- Bod gofyn ar aelodau i fod yn teithio ar draws Gwynedd, gan gofio y gall gymryd oddeutu dwy awr a hanner i deithio o Ogledd y sir i'r De.
- Gan ei bod yn ymddangos bod llwyth gwaith rhai cadeiryddion yn fwy nag eraill, y dylid sefydlu grŵp bychan i edrych ar hyn ymhellach.
- Angen gweld a fyddai defnyddio elfennau o'r drefn arfarnu swyddi o gymorth gyda'r gwaith pellach yma.
- Pwysigrwydd ystyried elfennau heblaw nifer cyfarfodydd, e.e. hyd cyfarfodydd a gofynion y tu allan i'r cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Argymell i'r Cyngor y dylid cadw lefel cyflogau Aelodau Cabinet ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith a chyfrifoldebau cyfartal i'r meysydd gwaith) a chadw lefelau cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith, natur ddaearyddol y sir a'r gofynion i deithio i gyfarfodydd ayyb).**

**(b) Sefydlu grŵp bychan yn cynnwys Cadeirydd y pwyllgor hwn a'r Cynghorwyr Charles Wyn Jones, Anne Lloyd Jones a Dilwyn Morgan i edrych eto ar y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r gwahanol Gadeiryddiaethau, gan adrodd eu hargymhelliad drwy'r Grŵp Busnes i'r Cyngor llawn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad** | **20 Medi 2016** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2015-16** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor** |
| **Awdur** | **Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

2. I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Pwyllgor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ac yna yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**Argymhelliad**

3.Derbyn yr adroddiad.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# 2015 - 2016

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Yn ystod cyfnod paratoi adroddiad y Pwyllgor Safonau am y flwyddyn aeth heibio cawsom ddaeargryn gyfansoddiadol na welwyd mo'i thebyg ers degawdau os erioed. Daeth hyn yn sgìl ymgyrch refferendwm fu'n un giaidd o du'r ddwy ochr oedd yn ymgyrchu i adael neu aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Nid oedd fawr i'w ddathlu o ran safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus. Yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, wrth i oblygiadau'r penderfyniadau ddod yn amlwg fe fydd hi'n bwysicach nag erioed sicrhau fod egwyddorion bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan)  yn cael eu cynnal. Mae'n werth eu crynhoi'n fyr yma:

**Anhunanoldeb**. Sicrhau lles y cyhoedd ar bob cyfri, nid troi'r dŵr i felin ein hunain mewn unrhyw ffordd

**Unplygrwydd**. Osgoi bod mewn sefyllfa lle gall unigolion neu sefydliadau allanol ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn rhinwedd ein swyddi.

**Gwrthrychedd**. Ymhob peth, sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod nid nawdd

**Atebolrwydd**. Bod yn barod i fod yn atebol i'r cyhoedd ac yn agored i'r broses graffu

**Tryloywder**. Bod mor agored â phosib am y rhesymau dros wneud penderfyniadau

**Gonestrwydd.** Datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

**Arweinyddiaeth**. Hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yma ac arwain drwy esiampl. Dyma'r llinyn mesur a'r safon a ddisgwylir.

Yn ffodus i ni fel Pwyllgor Safonau yng Ngwynedd dydi'r adroddiad yma ddim yn faith ac mae'n glod i'r Sir fod cyn lleied o achosion yn dod ger ein bron.
Nid da lle gellir gwell. Mae'r gyfundrefn llywodraeth leol yn cynyddu cyfrifoldebau ac mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i ddysgu mwy am yr heriau drwy fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau a chefnogi'r Swyddog Monitro a'i dîm wrth iddynt gynnig hyfforddiant. Hoffwn annog pawb i fanteisio ar y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor er mwyn sicrhau fod safonau bywyd cyhoeddus yng Ngwynedd yn cael eu cynnal bob amser ond yn enwedig yng nghanol y cyffro gwleidyddol sydd o bosib ar y gorwel.

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Rwy'n falch o nodi fod yr adroddiad yn cyfleu neges gadarnhaol am y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws trwch helaeth cynghorau cymuned y Sir. Mae cyfathrebu a sicrhau ymwybyddiaeth adeiladol yn gyfrwng pwysig i gynnal y safonau yma ac nid oes lle i laesu dwylo. Rwy'n falch felly y bu modd cynnal hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau'r Cyngor yma ynghyd â chyfres o seminarau i aelodau cynghorau tref a chymuned.

Yn ei anerchiad i gynhadledd Safonau Cymru yn Hydref 2015 cyfeiriodd yr Ombwdsmon, Nick Bennett yn ôl at egwyddorion Nolan a gyhoeddwyd yn 1995. Wrth edrych ar y saith egwyddor a'u perthnasedd i'r ugain mlynedd nesaf rhoddodd sylw penodol i'r egwyddor o arweinyddiaeth a'i bwysigrwydd wrth gynnal safonau uchel o ymddygiad mewn unrhyw gyfundrefn. Un o'i brif negeseuon oedd bod cyfrifoldeb ar bob un i ddangos arweinyddiaeth er cynnal safonau uchel o ymddygiad ac nad cyfrifoldeb y gellid ei briodoli i'r gyfundrefn safonau yn unig oedd hyn. Mae hon yn sicr yn neges amserol a pherthnasol.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU’R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae’n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â’r Cyngor neu lywodraeth leol (‘Aelodau Annibynnol’). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy’n cynrychioli buddiannau’r cynghorau cymuned (‘Aelod Pwyllgor Cymunedol’), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Linda Byrne (2012 -15)**

Mae Linda wedi byw yng ngogledd Cymru ers 10 mlynedd, ac erbyn hyn yn gweithio i Gyngor ar Bopeth yng Nghaernarfon fel gwirfoddolwr. Mae ei gŵr yn Gymro a thri o’i wyrion ac wyresau yn siaradwyr Cymraeg. Bu’n darlithio mewn colegau addysg bellach yng ngogledd ddwyrain Lloegr a Chymru cyn gweithio fel Cynghorydd Anabledd i Fyfyrwyr ym mhrifysgolion Durham a Bangor. Gwasanaethodd fel cynghorydd tre am chwe blynedd a chynghorydd bwrdeistrefol am wyth mlynedd yn Sedgefield, Swydd Durham. Yn anffodus bu raid i Lynda roi’r gorau i’w sedd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oherwydd gwaeledd.

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio’r rhan fwyaf o’i hoes yn Chwilog. Bu’n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae’n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu’n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu’n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a’i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu’n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw’r heriau sy’n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau’n cael eu gwneud er gwella neu’n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai’n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma’r union egwyddorion sydd i’w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a’i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo’r ffyrdd o weithio sy’n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen

mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.
Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi a'i chi ar daith o amgylch Llwybr Arfordir Cymru gyda'i chwaer.

**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

**Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**

Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli. Mae'n gyn-Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac mae'n gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**

Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod ar Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr

aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.  Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn llywodraethwr yn Ysgol Hirael.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro’r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o’r Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi’r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a’i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws,  Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015 - 2016

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Cynhaliwyd gwrandawiad i ystyried un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau etholedig.

Cynghorydd Julian Kirkham, Cyngor Cymuned Arthog

Cerydd am dorri paragraff 6(1)(a) - peidio ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau gais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cynghorau Cymuned. Gwrthodwyd y ddau gais.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnig hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir ym mis Hydref 2015. Cynhaliwyd pedair sesiwn, ym Mhwllheli, Caernarfon, Dolgellau a'r Bala. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan y Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) a mynychodd cynrychiolwyr o 30 o'r 64 cyngor tref a chymuned. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i aelodau Gwynedd hefyd.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw

galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol.  Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2015-16

## 13 Ebrill 2015

- Gwrandawiad – penderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod etholedig

## 20 Ebrill 2015

- Cynnal Hunan Asesiad
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru
- Derbyn Cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

## 29 Medi 2015

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15
- Ystyried canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad
- Llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod

## 5 Hydref 2015

- Ystyried dau gais am oddefeb
- Derbyn adroddiad gan Uwch Reolwr Refeniw a Risg y Cyngor ar Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 25 Ionawr 2016

- Ystyried Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a chyflwyno sylwadau i'w hystyried fel rhan o ymateb corfforaethol y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- Derbyn adroddiad ar Gynhadledd Safonau 2015
- Trafod arsyllu cyfarfodydd o bwyllgorau'r Cyngor a chynghorau cymuned a thref

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol | Dim ymchwiliad.  Dim tystiolaeth fod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd. |
| Bod aelod wedi tresmasu ar eiddo'r achwynydd, wedi dadlau ag ef ac wedi cydio yn ei fys a'i blygu /nôl.  Galwyd yr heddlu | Peidio ymchwilio.  Dim tystiolaeth bod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd.  Nododd yr Ombwdsmon bod yr heddlu wedi eu galw. |
| Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi cymryd rhan mewn cyfarfod lle'r oedd ganddi fuddiant  oedd yn rhagfarnu. | Dim camau pellach i'w cymryd.  Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod tystiolaeth i awgrymu torri'r cod ond na fyddai'r Pwyllgor Safonau, yn yr amgylchiadau, yn rhoi unrhyw gosb bellach. |
| Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth. | Pwyllgor Safonau yn dyfarnu ei fod wedi torri'r cod ac yn penderfynu y dylai  dderbyn cerydd. |
| Cwyn yn erbyn cynghorydd sir gaen aelod o'r cyhoedd, ei fod wedi cynnal ymgyrch leol mewn cysylltiad â mater penodol, ac wedi camarwain swyddogion y cyngor ynglŷn â'r amgylchiadau yn yr ardal. | Dim ymchwiliad – achwynydd heb ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau. |

| | |
|---|---|
| Cwynion gan bedwar unigolyn yn deillio o'r un digwyddiad. Cwyno bod cynghorydd sir wedi gwneud cyhuddiadau difrifol nad oeddynt yn wir am unigolion oedd wedi bod yn cynnal protest, mewn e-byst ac ar Facebook. | Dim ymchwiliad - mae gan yr aelod yr hawl i fynegi barn yn enwedig os yw'n farn wleidyddol. Fel aelod etholedig roedd ganddo'r hawl i rannu ei farn wleidyddol ynglŷn â'r digwyddiadau dan sylw. |
| Roedd y cynghorydd wedi dwyn i ben sgwrs ffôn gyda'r achwynydd mewn perthynas â difrod a wnaed i eiddo'r achwynydd. | Dim ymchwiliad.<br><br>Tystiolaeth annigonol i gadarnhau'r gŵyn. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth gref sy'n awgrymu torri'r cod. |
| Roedd ymddygiad y cynghorydd mewn cyfarfod o'r cyngor tref wedi bod yn ymosodol tuag at, ac yn gwahaniaethu yn erbyn, corff lleol yn ystod trafodaeth ar gais am arian gan y corff hwnnw. | Dim ymchwiliad.<br><br>O'r dystiolaeth oedd ar gael nid oedd hi'n ymddangos bod yr aelod wedi torri'r cod. Roedd ganddo'r hawl, fel rhan o'i gyfrifoldebau fel cynghorydd, i ofyn cwestiynau a mynnu cadarnhad o fanylion yr ymgeisydd. |
| Cwyn gan gyd gynghorydd tref fod aelod wedi defnyddio ei gamera i fwlio'r achwynydd ar ddau achlysur ac wedi ei sarhau'n eiriol ar sawl achlysur. | Dim ymchwiliad.<br><br>Pan ddigwyddodd rhai o'r materion honedig nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y bydd y cod yn berthnasol i gynghorydd pan fydd yn gweithredu fel unigolyn preifat, ac nid oedd yn ymddangos bod yr amgylchiadau hynny yn bodoli yn yr achos hwn. Nid oedd yr achwynydd yn medru cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r honiadau eraill. |

Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 20/09/2016 |
| **PWRPAS** | Diweddaru aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau diweddaraf a gwaith y grŵp ffocws etholiadau Llywodraeth Lleol (Mai 2017). |
| **AWDUR** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynhaliwyd 22ain o Fawrth, 2016 gofynnwyd i'r pwyllgor adnabod 4-5 o aelodau fyddai'n fodlon eistedd ar grŵp ffocws i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol (i'w cynnal ym Mai 2017).

1.2 Penderfynwyd sefydlu grŵp ffocws gyda'r Cynghorwyr Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Michael Sol Owen, ynghyd a'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am y maes Democratiaeth, Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

1.3 Adnabuwyd tair ffrwd i'r gwaith paratoi ar gyfer etholiadau Llywodraeth Lleol, sef:
- Paratoi ymgeiswyr
- Rhaglen anwytho a'r rhaglen hyfforddiant
- Ystyriaethau electroneg

1.4 Noder fod gwaith y grŵp ffocws yn cyd-blethu ac ategu gwaith yr Is-grŵp Amrywiaeth, gweler adroddiad cynnydd ar wahân ganddynt.

## 2. DATBLYGIADAU HYD YMA – Sesiynau paratoi ac anwytho aelodau

2.1 Cyfarfu'r grŵp ffocws ar 14eg o Fehefin i drafod y ddwy elfen gyntaf, sef paratoi ymgeiswyr a'r rhaglen anwytho / hyfforddiant ar gyfer y cyfnod Mai 2017 ymlaen. Yn bresennol roedd y Cynghorwyr Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Michael Sol Owen a Dyfrig Siencyn. Gellir gweld ffrwyth eu gwaith fel a ganlyn:

- Sesiynau paratoi ar gyfer aelodau etholedig – **Atodiad A**
- Rhaglen Anwytho ar gyfer aelodau – **Atodiad B**

2.2 Wrth ystyried beth i'w gynnwys a sut i gynnal y digwyddiadau uchod, bu i'r grŵp ystyried trefniadau 2012, ystyried negeseuon gan aelodau etholedig sydd wedi deillio o'u cyfweliadau datblygu personol, yn ogystal ag ymgynghori gyda Grŵp Busnes y Cyngor.

2.3 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drafod a derbyn y cynlluniau drafft a nodir yn Atodiad A ac Atodiad B.

## 3. DATBLYGIADAU HYD YMA – Technoleg Gwybodaeth

3.1 Cyfarfu'r grŵp ffocws i drafod y ddarpariaeth electroneg mewn sesiwn ar wahân ym mis Gorffennaf er mwyn sicrhau amser digonol i ystyried y gwahanol ffactorau. Yn bresennol roedd y Cynghorwyr Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Michael Sol Owen a Dyfrig Siencyn, ynghyd â Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth ac Urien Huws, Peiriannydd Desgfwrdd Technoleg Gwybodaeth i gynnig arbenigedd am y maes i'r aelodau.

3.2 Cafwyd cyfle i ystyried anghenion yr aelodau o ran technoleg (sef beth oedd angen i'r cyfarpar allu ei wneud), ac yna gymharu 4 dyfais wahanol yn ystod y cyfarfod. Mae'n faes cymhleth iawn, a daeth yn glir yn fuan na fyddai'r grŵp ffocws yn gallu dod i gasgliad yn ystod y sesiwn. Mae gwaith pellach i'w wneud i'r maes hwn, gyda chyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2016. Gweler mwy o wybodaeth yn **Atodiad C**.

3.3 I gynorthwyo'r grŵp ffocws yn ei waith o ystyried yr anghenion Technoleg Gwybodaeth, byddai'n fuddiol iawn petai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gallu

a) Cadarnhau'r anghenion o ran Technoleg Gwybodaeth (trafodaeth ar Atodiad C, pwynt 1)
b) Ystyried y manteision a'r anfanteision o gynnig un cyfarpar safonol neu ddewis o gyfarpar (trafodaeth ar Atodiad C, pwynt 5)
c) Rannu eu barn gychwynnol am ba fath o wybodaeth (os o gwbl) y byddai'r Aelodau yn dymuno ei gael pe byddem yn datblygu safle penodol ee mewnrwyd cynghorwyr

## 4 CAMAU NESAF

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y datblygiadau hyd yma a thrafod yr hyn a nodir yn 2.3 a 3.3 uchod. Adroddir ymhellach i'r cyfarfod nesaf ar 29 Tachwedd 2016.

4.3 Yn ogystal â'r uchod, rydym yn ymwybodol na fydd yr holl aelodau cyfredol yn dewis sefyll yn etholiadau Mai 2017. Rydym hefyd yn ymwybodol fod gwybodaeth bwysig i'w gasglu gan aelodau sy'n dewis peidio ail sefyll, neu yn wir rai na fydd yn llwyddiannus wrth ail sefyll. Bydd y grŵp yn ystyried y trefniadau ar gyfer yr aelodau hynny yn eu cyfarfodydd nesaf.

## Atodiad A – Rhaglen Waith Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth

**PARATOI YMGEISWYR AR GYFER ETHOLIAD MAI 2017**

**CEFNDIR**

1. Mewn Cyfweliadau Datblygu Personol gydag aelodau unigol ac mewn trafodaethau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2014/15, adnabuwyd yr angen i baratoi pobl yn well ar gyfer bod yn gynghorwyr sir, gan dargedu ymgeiswyr posib cyn iddynt gyflwyno enwebiadau fel eu bod yn deall beth fyddant yn eu hwynebu pe byddent yn llwyddiannus.

**Y CYNNIG**

2. Anelu at etholiadau'r Cyngor Sir ar 4 Mai 2017, gan gofio y bydd y Rhybudd Etholiad yn cael ei gyhoeddi 6 wythnos cyn hynny ar tua 23 Mawrth.

3. Y bwriad yw cynnal cyfres o sesiynau ar gyfer rhai sydd yn ystyried cynnig eu hunain fel ymgeiswyr tua mis Ionawr 2017.

4. Bwriedir ceisio rhoi cyhoeddusrwydd mor eang â phosib ar gyfer y sesiynau hynny gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau pleidiau a rhestr bostio cynghorau cymuned i geisio denu cymaint o ddiddordeb â phosib yn y cyfarfodydd.

5. Bwriedir cynnal 3 chyfarfod, un yn Arfon, un yn Nwyfor ac un ym Meirionnydd gyda'r nos gan lunio pecynnau gwybodaeth i'w rhannu a'u dosbarthu yno.

**RHAGLEN Y CYFARFODYDD**

| | |
|---|---|
| Croeso | Gair byr efallai gan Gadeirydd y Fforwm Ardal |
| Bod yn Gynghorydd | Cyflwyniad gan Arwel Jones ar:-<br>• Gyfrifoldebau'r Cyngor Sir (Y gwahaniaeth efo cynghorau cymuned)<br>• Rôl yr Aelod Lleol a'r rôl sefydliadol o fewn y Cyngor (gofynion amser)<br>• Disgwyliadau technoleg ayb |
| Profiad Aelod Newydd | Sgwrs 10 munud gan aelod newydd (gwahanol yn y tair ardal) ar eu profiadau hwy yn 2012 |
| Trefn y Cyngor | Esboniad gan Arwel Jones o'r trefniadau gwleidyddol (Cabinet / Craffu / Trefn Bwyllgorau) |
| Ymddygiad Aelodau | Cyflwyniad gan Iwan Evans / Sion Huws ar Safon Gwynedd a'r Côd Ymddygiad |
| Cyflog a Threuliau | Esboniad gan Arwel Jones o'r Drefn Cyflogau a Threuliau |
| Y Broses Etholiadol a'r Drefn Enwebiadau | Esboniad gan Raymond Harvey am y broses etholiadol, dyddiadau allweddol a ffurflenni i'w llenwi |
| Gofynion anwytho ar gyfer aelodau newydd ar ôl yr etholiad | Bydd angen i aelodau newydd fod ar gael i fynychu sesiynau anwytho dydd Mawrth a Mercher 9fed a'r 10fed o Fai, 2017 yng Nghaernarfon. Cyflwyno trefn y dyddiau a'r gofynion cyflwyno ganddynt ee manylion banc |

DS Gweithredu yn reit llac a chaniatáu i bobl ofyn cwestiynau fel y mae'r cyflwyniadau yn digwydd

**Atodiad B – Rhaglen Anwytho Posib**

## Anwytho Aelodau – Etholiadau Mai 2017.
## Dydd Mawrth, 9fed o Fai a Dydd Mercher, 10fed o Fai, 2017.

Egwyddorion:

- Tueddir i ddysgu'n well mewn criwiau llai, felly "ffair gwybodaeth" yw'r ffurf a argymhellir ei dilyn
- cyfuniad o aelodau profiadol a'r newydd ym mhob criw (hybu mentora anffurfiol)
- Bydd angen sicrhau fod Aelodau yn ymwybodol o le i ddod o hyd i fwy o wybodaeth drostynt eu hunain.
- gellir trefnu sesiynau pellach os yw aelod yn dymuno hynny

**Crynodeb.**

Diwrnod 1af, 9fed o Fai, 2017:

| | |
|---|---|
| 10 – 11 | Croeso a chyflwyniad i'r Cyngor. |
| 11 – 12 | Ymweld â stondin fesul grŵp. |
| 12 - 1 | Toriad i ginio. |
| 1 – 2 | Ymweld â stondin yn eu grŵp. |
| 2 – 3 | Ymweld â stondin yn eu grŵp |
| 3 – 4 | Cyflwyniad gan 4 Pennaeth Gwasanaeth |

2il Ddiwrnod, 10fed o Fai, 2017:


| | |
|---|---|
| 10 – 11 | 'Taith' o amgylch y siambrau i aelodau newydd |
| 11 – 12 | Ymweld â stondin yn eu grŵp. |
| 12 - 1 | Toriad i ginio. |
| 1 – 2 | Ymweld â stondin yn eu grŵp. |
| 2 – 3 | Cyflwyniad gan 5 Pennaeth Gwasanaeth |

**Manylion/ esboniad pellach**

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Croeso gan y Cadeirydd a chyflwyniad gan y Prif Weithredwr**<br><br>**(10 – 11 y bore)** | Siambr Dafydd Orwig | • Croeso gan Gadeirydd y Cyngor<br>• Croeso gan y Prif Weithredwr.<br>• Cyflwyniad i egwyddorion Ffordd Gwynedd.<br>• Cyflwyniad byr i 'sefyllfa'r Cyngor' – lle ydym arni o ran arbedion ayyb<br>• Rôl yr aelodau a'u gwaith<br>• Esbonio trefn y diwrnod/ dyddiau nesaf, sef y Ffair wybodaeth – gweler isod. | Cadeirydd y Cyngor.<br>Prif Weithredwr. | |

**FFAIR GWYBODAETH**

Bydd yr aelodau yn rhannu i 5 grŵp.
Awgrymir fod pob grŵp yn treulio awr ar bob stondin.
Bydd pob grŵp yn cychwyn ar stondin gwahanol, gan symud ymlaen i'r stondin nesaf yn y cylch.
Bydd yr holl aelodau yn ymweld â thri stondin ar y diwrnod cyntaf, ac yna â dau stondin ar yr ail ddiwrnod (bydd hyn yn caniatáu cyfle i bawb fod wedi ymweld â phob stondin dros y ddau ddiwrnod).
Bydd angen ystyriaeth i ofynion ieithyddol, awgrymir grŵp di-gymraeg.
Bydd angen trefnu hebryngwyr o un stondin i'r nesaf.



**MANYLION AM Y 'STONDINAU'**

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth** | Siambr Hywel Dda | • Derbyn cyfarpar<br>• Arwyddo cytundeb<br>• Dychwelyd hen gyfarpar<br>• Hyfforddiant byr/elfennol ar gyfarpar newydd a threfnu hyfforddiant pellach TG os oes angen<br>• Modern.gov | Huw Ynyr<br>Bryn Goodman<br>Urien Huws<br>Sion M Owen | Dibynnol ar waith yr is-grŵp o ran sut gyfarpar y byddwn yn ei ddarparu i'r aelodau. |

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Democratiaeth yn y Cyngor** | Daron | • Democratiaeth yn gyffredinol – y darlun mawr (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth leol, ayyb)<br>• Strwythur y Cyngor o ran pwyllgorau – Cyngor, Cabinet, Craffu<br>• Cyflwyniad byr i rolau'r pwyllgorau eraill<br>• Llywodraethu corfforaethol – swyddogion y Cyngor etc<br>• Grwpiau gwleidyddol a chydbwysedd gwleidyddol | Geraint Owen,<br>Arwel Ellis Jones<br>Vera Jones | Angen sicrhau fod y wybodaeth ar gael yn syml o ran disgrifiadau pwyllgorau ac ar gael ar y safle we (& ar gyfer y sesiynau cyn etholiad). |

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth i aelodau** | Peris | • Hyfforddiant<br>• Cyfweliadau Datblygiad personol<br>• Lle i gael mwy o wybodaeth ee Rhaeadr ac e-gwynedd | Carey Cartwright<br>Cara Williams<br>Sarah Scott | Gwahanol weithgareddau o fewn un ystafell. |

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Derbyn gwybodaeth gan aelodau** | Enlli<br>(a Mawddach i dynnu lluniau) | • Tynnu llun<br>• Trefniadau cerdyn mynediad<br>• Costau teithio, hawlio gofal, cyflogau , pensiynau ayyb<br>• Cyflwyno eu manylion banc | Mari Powell Jones.<br>Tynnwr Lluniau.<br>Staff i weinyddu. | Gwahanol weithgareddau o fewn un ystafell.<br><br>Tynnu lluniau – Ystafell Mawddach |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cyfle i drafod unrhyw anghenion arbennig | | |

| TEITL | Lleoliad | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | Gwyrfai neu Llyfni | • Sesiwn cyflwyno gwybodaeth a chyfle i holi<br>• Cyflwyno copi ca led o'r cod ymddygiad<br>• Prif Egwyddorion<br>• Cofrestru buddiant<br>• Esbonio cofrestru buddiant mewn cyfarfodydd a'r anghenion arnynt<br>• Protocol cyfryngau cymdeithasol<br>• Arwyddo derbyn y swydd | Iwan Evans a Sion Huws | Cyfeirio at le i gael mwy o wybodaeth.<br>Enghreifftiau ymarferol . |

**Ar ddiwedd y ddau ddiwrnod, cynhelir cyflwyniad byr gan Benaethiaid Gwasanaeth i brif ddyletswyddau eu gwasanaethau. Bydd yr holl aelodau yn ail ymgynnull yn Siambr Dafydd Orwig ar gyfer y sesiynau hyn am 3 o'r gloch ar y 9fed o Fai, a 2 o'r gloch ar y 10fed o Fai.**

| TEITL | Lleoliad | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad gan y Gwasanaethau** | Siambr Dafydd Orwig | Bydd 10 munud o slot i bob Pennaeth i amlinellu:<br>• Prif gyfrifoldebau'r gwasanaeth<br>• Strwythur y gwasanaeth<br>• Sut i gysylltu<br>• Prif heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth<br><br>Bydd y Penaethiaid perthnasol ar gael ar ddiwedd y sesiwn i ateb unrhyw gwestiynau pellach gan aelodau unigol. | **Diwrnod 1**:<br>4 Pennaeth<br>**Diwrnod 2**:<br>5 Pennaeth | Bydd angen gallu cyfeirio'r aelodau at le i gael mwy o wybodaeth. |

**Ar ddechrau'r ail ddiwrnod, 10fed o Fai, bydd cyfle i'r Aelodau newydd gael 'taith' o amgylch y siambrau a chael cyflwyniad byr ar y systemau sydd ynddo. Mae'n bwysig i bob aelod newydd ymdrechu i fynychu'r sesiwn hwn fel eu bod yn ymwybodol o drefniadau cyn cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd sydd i'w gynnal ar 18 Mai 2017. Croesewir aelodau profiadol hefyd.**

| TEITL | LLEOLIAD | MATERION I'W CYFARCH | SWYDDOGION | SYLWADAU/YSTYRIAETHAU |
|---|---|---|---|---|
| **'Taith' o amgylch y siambrau**<br><br>**Diwrnod 2. 10 – 11 y bore. Aelodau newydd** | Ymgynnull yn Siambr Dafydd Orwig | • Cyflwyniad i Siambr Dafydd Orwig a Hywel Dda<br>• Trio'r system bleidleisio<br>• Cyflwyniad i we-ddarlledu a'r canllawiau a gweld enghreifftiau<br>• Ymweld â lle paned, Siop Gwynedd (dim amser i fynd i Penrallt mae'n debyg) | Tim Gwasanaethau Democrataidd | Ystyriaeth at y dylid cynnal digwyddiad yn rhywle heblaw pencadlys - ar ôl y cyfarfodydd cyntaf. E.e. mynediad o bell trwy fideo gynhadledd ac/neu ddefnyddio'r Adnoddau sydd ym Mhenrhyndeudraeth |

Ar ôl y dyddiau cyntaf.

Mae'r isod yn sesiynau y bydd angen eu rhaglennu i'w cynnal ar ôl hynny (o fewn 6 mis / blwyddyn). Teitlau eraill ychwanegol o bosib hefyd.

- Hyfforddiant i gadeiryddion (fersiwn syml o'r un cyfredol)
- Cyflwyniad i brif bolisïau a Strategaethau'r Cyngor
- Cydraddoldeb
- Diogelu
- Rheoli Data
- Rhiantu Corfforaethol
- Cyllid - trefniadau ariannol y Cyngor ee lle daw ein harian? Dealltwriaeth refeniw, cyfalaf, balansau ayyb.
- Datblygu'r Cabinet newydd – hyfforddiant penodol
- Cynllunio ar gyfer aelodau nad ydynt ar y pwyllgor
- Cyfryngau cymdeithasol
- Cyfweliadau datblygiad personol ac adroddiadau blynyddol
- Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyrff Allanol

**Atodiad 3 – Gofynion Technoleg Gwybodaeth Aelodau**

**Grŵp Ffocws Etholiadau Mai 2017.**
**Cyfarfod 2 – Cyfarpar electroneg posib**

**Dyddiad** – 06/07/2016
**Yn bresennol** – Cynghorwyr Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Michael Sol Owen, Dyfrig Siencyn.
Swyddogion – Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth, Urien Huws, Peiriannydd Desgfwrdd Technoleg Gwybodaeth, Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Sion Owen, Swyddog Cefnogi Aelodau.

1. Ystyriwyd yr anghenion (hynny yw, beth mae angen i'r ddarpariaeth electroneg ei wneud)

- ✓ Derbyn e-byst
- ✓ Darllen dogfennau yn rhwydd
- ✓ Calendr
- ✓ Cludadwy
- ✓ Trin/golygu dogfennau (i rai)
- ✓ Gyrru Lluniau ? (i rai)

(Noder, rhaid cofio fod darpariaeth ar gyfer trin dogfennau o gyfrifiadur gartref yn cael ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer golygu dogfennau)

2. Aseswyd 4 dyfais yn erbyn y meini prawf uchod yn ystod y cyfarfod, sef IPad Air 2, Lenovo L450/460, Lenovo x250, Surface Pro.

3. Roedd dwy ddyfais yn dod i'r brig yn gyfredol, sef IPad Air 2 a'r Surface Pro. Fodd bynnag, roedd y grŵp ffocws yn credu fod angen gwneud mwy o waith cyn gallu dod i gasgliad, gan ofyn i'r swyddogion
   a) Ddarganfod beth oedd bwriadau awdurdodau eraill yng Nghymru o ran dyfais a chost
   b) Ddarganfod beth oedd bwriad Apple ar gyfer rhyddhau eu dyfais newydd nesaf (sy'n debygol o ddigwydd oddeutu mis Hydref 2016)
   c) Trefnu cyfle i aelodau'r Grŵp Ffocws i dreialu'r dyfeisiadau er mwyn eu galluogi i ddod i gasgliad tecach.

4. Mae'r gwaith uchod wrthi'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, gyda chyfarfod pellach i ystyried y materion yn a, b ac c uchod yn cael ei drefnu ar gyfer yr Hydref.

5. Ymhellach, gofynnwyd i'r grŵp ffocws ystyried tri opsiwn o gyflwyno'r cyfarpar, sef unai:

   i) Ddarparu un cyfarpar safonol i'r holl aelodau
   ii) Roi dewis o gyfarpar i'r holl aelodau neu
   iii) Ddarparu cyfarpar yn unol â swyddogaethau aelod (ee gwahanol i Aelod Cabinet)

6. Bu i'r grŵp ddechrau adnabod y manteision a'r anfanteision i'r uchod. Diau y bydd yn ystyriaeth yn y cyfarfod pellach ac wrth dreialu unrhyw gyfarpar, er mwyn gallu dod i gasgliad a chyflwyno argymhellion ar y ddarpariaeth electroneg. Disgwylir adrodd yr argymhellion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Tachwedd, 2016.

7. Bydd y grŵp hefyd yn ceisio dod i gasgliad ar y trefniadau ymarferol o ran dosbarthu'ry cyfarpar newydd, gosod canllawiau at pan fo aelod yn peidio â bod yn aelod, ynghyd ag ystyried trefniadau casglu offer cyfredol (yn ddibynnol ar yr opsiwn a gefnogir i'r dyfodol).

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 20 Medi 2016 |
| PWNC | Is-Grŵp Amrywiaeth mewn democratiaeth |
| PWRPAS | Cyflwyno diweddariad o waith yr is-grŵp amrywiaeth |
| AWDURON | Arwel Ellis Jones<br>Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni) |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae aelodau'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol fod grŵp wedi ei sefydlu mewn ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, oedd yn nodi bod diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig Llywodraeth Leol, yn arbennig yn nhermau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, yr anabl a merched.

   Gwaith yr is-grŵp amrywiaeth

2. Mae'r is-grŵp eisoes wedi adrodd ar y graddau y mae corff aelodau etholedig Gwynedd yn adlewyrchu'r boblogaeth yn ei gyfanrwydd, gan nodi fod cryn wahaniaeth yn y niferoedd o ferched a phobl ifanc yn y sir o gymharu â'r niferoedd sy'n aelodau etholedig. Cyflwynwyd y rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor hwn.

3. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dangos ei gefnogaeth i'r prosiect gan ei fod wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-2020, gyda'r uchelgais o gynyddu'r niferoedd o gefndiroedd llai cynrychioladol (pobl ifanc a merched) yn etholiad Llywodraeth Leol 2017.

4. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr is-grŵp amrywiaeth yn mynd law yn llaw gyda gwaith y Grŵp Ffocws Etholiadau 2017. Yn ogystal, mae'r gwaith yn cyd-fynd gyda gwaith y Grŵp Ymgysylltu Corfforaethol sydd wedi cefnogi cais y grŵp i greu grŵp trafod ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar gyfer ymgynghori â hwy ar bynciau llosg. Gweler hyn fel ffordd o danio diddordeb Pobl Ifanc mewn meysydd gwasanaeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.

5. Dylid atgoffa aelodau'r Pwyllgor fod y rhaglen waith wedi ei selio ar waith ymchwil cenedlaethol yn adnabod rhwystrau rhag i unigolion sefyll fel aelod etholedig, yn ogystal â sylwadau sydd wedi eu derbyn gan aelodau etholedig presennol ac yn y gorffennol.

6. Nodir isod y gwahanol elfennau y mae'r is-grŵp amrywiaeth wedi mynd i'r afael â hwynt yn ystod y misoedd diwethaf.

   Mae'r gwaith wedi ei rannu i ddau ran.
   - Blaenoriaeth gyntaf - edrych ar geisio annog ac ysgogi unigolion sydd â diddordeb mewn sefyll i fod yn Gynghorydd i wneud hynny (trwy godi ymwybyddiaeth o waith Cynghorydd a cheisio deall beth sy'n eu rhwystro rhag sefyll).
   - Blaenoriaeth dau – gwaith mwy hir dymor i godi ymwybyddiaeth ac annog diddordeb mewn Democratiaeth yn gyffredinol, gan ysgogi unigolion i sefyll yn y

dyfodol. (Codi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor gan hefyd barhau i geisio deall a datrys y rhwystrau)

7. Mae'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma wedi ei amlinellu yn y tabl isod.

<table>
<tr><td colspan="2">Rhan 1</td></tr>
<tr><td>1.</td><td>Codi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd i'r cyfle i sefyll fel aelod etholedig</td></tr>
<tr><td></td><td>Penderfynodd yr is-grŵp amrywiaeth fod angen arloesi rhywfaint a gweithredu'n wahanol i geisio codi ymwybyddiaeth o rôl Cynghorydd a'r cyfleoedd i sefyll. Fel math o beilot, bu iddynt drefnu creu fideo i esbonio beth yw gwaith Cynghorydd. Roedd yn allweddol fod y fideo yn gryno, syml a chlir, gan ddefnyddio iaith blaen a dim jargon. Pwrpas y fideo oedd esbonio beth yw'r gwahanol elfennau o fewn rôl Cynghorydd. Yn ogystal, pwysleisiwyd fod angen i'r gwaith fod yn fachog, diddorol a hawdd i'w ddeall.<br><br>Lansiwyd y fideo nol ym mis Mehefin 2016 gyda chyfres o ddatganiadau i'r wasg, a chyfres o negeseuon cyson ar gyfrifon Trydar a facebook y Cyngor (gweler Atodiad A).<br><br>Mae'r ymateb i'r fideo wedi bod yn llwyddiannus, gyda<br>• Dros 1,000 o bobl wedi gwylio'r fideo drwy safle facebook y Cyngor<br>• Bron i 500 arall wedi gwylio'r fideo trwy gysylltu o safle trydar y Cyngor a'i ddilyn oddi yno<br><br>Mae'r fideo hefyd wedi ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor dan gyfeiriad hawdd i'w gofio, sef, <u>www.gwynedd.llyw.cymru/BodYnGynghorydd</u> (gweler mwy o wybodaeth am hyn isod).<br><br>Dylid nodi yma fod y fideo wedi cael sylw gan gynghorau eraill hefyd. Yn wir mae Cyngor Conwy wedi gweld budd cael fideo syml a chlir fel eu bod wedi gwneud cais i'w brynu gan y Cyngor er mwyn ei addasu ychydig a'i ddefnyddio eu hunain.</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhywbeth syml, ond effeithiol iawn sydd wedi ei ddatblygu gan yr is-grŵp yw codi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd pan fo sedd wag yn codi. Yn y gorffennol, roedd hysbysiad byr o hyn i'w ddarganfod (ar ôl chwilio) ar safle we'r Cyngor, a byddai'r grwpiau gwleidyddol yn codi ymwybyddiaeth o fewn eu grwpiau i unrhyw gyfleon.<br><br>Bellach, er mwyn ceisio cyrraedd mwy o drigolion Gwynedd hefo'r newyddion fod cyfle i sefyll mewn isetholiad, mae'r Cyngor yn trydar ac yn rhoi datganiad ar Facebook pan fo sedd yn wag, gan hysbysu unigolion o'r camau sydd angen eu dilyn er mwyn gallu sefyll. Mae'n fodd o ledaenu'r neges ymhellach i fwy o'r boblogaeth, gan gofio fod 12,254 yn dilyn cyfrif Trydar y Cyngor a 5,499 yn dilyn cyfrif Facebook y Cyngor.</td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Holiaduron – sut allwn helpu?</td></tr>
<tr><td></td><td>Ar ddiwedd y fideo uchod, gofynnir i unigolion lenwi holiadur i nodi os oes rhywbeth yn eu rhwystro rhag symud ymlaen i sefyll mewn etholiad. Fel y nodwyd uchod, datblygwyd cyfeiriad URL cyfeillgar i annog unigolion â diddordeb yn y maes i ymateb. Mae'r is-grŵp wedi bod yn ymwybodol trwy gydol y gwaith na fyddai lefel uchel yn ymateb gan nad yw'r maes o ddiddordeb i bawb, ond mae'r ymateb cychwynnol yn galonogol.<br><br>• Hyd yma mae hanner cant o bobl wedi ateb yr holiadur, sy'n ganlyniad calonogol.<br>• O'r data a gasglwyd, mae mwy o ddynion nag o ferched wedi dangos diddordeb<br>• Mae'r diddordeb uchaf yn y grŵp oedran 26 - 49, ac yna'r grŵp oedran 50 - 64</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Ni chafwyd diddordeb (trwy'r holiadur) gan unigolion dan 25 oed<br><br>Mae'r prif negeseuon o'r ymatebion hyd yma yn dangos mai'r prif rwystrau yw amser, diffyg amser i ffwrdd o'r gwaith, a diffyg ymwybyddiaeth o sut i fynd ati i sefyll. Nodir hefyd fod diffyg gwybodaeth, a diffyg dealltwriaeth os oes cymorth ariannol ar gael hefyd yn rhwystrau.<br><br>Mae'r ymatebion yn nodi'r ffyrdd y gall y Cyngor gynorthwyo'r unigolion fel<br>• datblygu pecyn gwybodaeth a gwybodaeth ar lein,<br>• cynnal cyflwyniad i ddarpar ymgeiswyr, a<br>• chyfle i gael eu mentora petaent yn llwyddiannus mewn etholiad.<br><br>Fe welir fod y negeseuon sydd wedi eu derbyn o'r holiaduron gafodd eu hateb hyd yma yn cyd-fynd â'r negeseuon o'r gwaith ymchwil gwreiddiol a wnaethpwyd, ac mae'r is-grŵp eisoes wedi mynd ati i ymateb i nifer o'r elfennau eisoes.<br><br>Rydym yn parhau i hyrwyddo'r fideo a'r holiadur. |
| **3.** | **Diweddaru gwybodaeth ar y safle we.** |
| | Pan fo unigolyn yn ystyried sefyll mewn etholiad, maent yn aml yn edrych ar safle we'r Cyngor i chwilio am arweiniad clir a syml o'r camau sydd angen eu cymryd cyn dod i gasgliad os ydynt am sefyll neu beidio. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd yn y gorffenol, ac roedd hynny o wybodaeth oedd ar gael ar wasgar ac nid oedd yn hawdd i'w ddarganfod.<br><br>Mae'r is-grŵp wedi gweithio ar ddatblygu'r safle we, â'r cam cyntaf oedd sefydlu yr URL cyfeillgar - www.gwynedd.llyw.cymru/BodYnGynghorydd fel y nodir yn 1 uchod.<br><br>Roedd yr is-grŵp hefyd yn benderfynol fod angen i'r wybodaeth a gyflwynir yno fod yn hawdd i'w ddeall ac yn glir. Felly, datblygwyd 4 maes<br>• Rôl Cynghorydd<br>• Ydw i'n gymwys?<br>• Sut i sefyll etholiad<br>• Ar ôl eich ethol<br><br>Gellir dilyn y linc uchod i weld y safle we. Mae'r is-grŵp yn parhau i ddatblygu'r wybodaeth sydd yno, ac yn cyfeirio at wybodaeth ddefnyddiol o safleoedd eraill hefyd. Hyd yma mae oddeutu 200 o ymwelwyr wedi defnyddio'r dudalen we. |
| **4.** | **Codi ymwybyddiaeth Aelodau etholedig o'r gwaith** |
| | Nodwyd eisoes fod gan y grwpiau gwleidyddol rôl i'w chwarae mewn annog unigolion o wahanol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol. Cynhaliwyd cyfres o gyflwyniadau i waith yr is-grŵp amrywiaeth yn y Fforymau Ardal fel bo'r holl aelodau yn ymwybodol o'r datblygiadau sydd yn/wrthi'n digwydd. Mae'n fodd wedyn i aelodau unigol ddefnyddio neu gyfeirio at rywfaint o'r gwaith ee y safle we wrth siarad gydag unigolion sydd efallai wedi eu holi hwy am sut i fynd ati i sefyll fel Aelod etholedig.<br>Yn ogystal, dosbarthwyd dogfen Llywodraeth Cymru: Amrywiaeth mewn Democratiaeth i bob aelod. |
| **Rhan 2** | |
| **5.** | **Gwaith tymor hwy** |
| | Mae unigolion sydd eisoes â diddordeb mewn gwleidyddiaeth a/neu waith y Cyngor yn debyg |

| | |
|---|---|
| | o fod yn eithaf ymwybodol o beth yw gwaith y Cyngor eisoes. Er mwyn annog mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll i'r dyfodol fel bo corff y Cyngor yn adlewyrchu'r gymdeithas yn decach, teimlai'r grŵp fod angen esbonio'n syml ac atgoffa trethdalwyr o holl ystod gwaith y Cyngor. Byddai hyn yn sbardun i godi eu diddordeb yng ngwaith y Cyngor yn y lle cyntaf, gan wedyn arwain at ystyried rôl iddynt hwy eu hunain o fewn y gwaith, efallai fel Cynghorydd. Mae'n ffordd rwydd o roi blas i unrhyw unigolyn sy'n ystyried rôl mewn gwleidyddiaeth i'r dyfodol i ddod i adnabod gwaith y Cyngor yn well.<br><br>Bydd y fideo yn cael ei lansio yn ystod tymor yr Hydref i gyd-fynd gyda Diwrnod Cenedlaethol Democratiaeth (Medi 15fed). |

ATODIAD A

**Cyngor Gwynedd Council**

June 28 ·

Hyrwyddo amrywiaeth ym mywyd cyhoeddus Gwynedd:

Mae cynllun newydd sydd yn cael ei lansio gan Gyngor Gwynedd yn anelu i annog mwy o ferched, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig ac aelodau o grwpiau eraill sydd yn cael eu tan-gynrychioli i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr.

Mae'r ymgyrch, sydd yn cael ei lansio'r wythnos yma, yn cynnwys fideo fer wedi'i animeiddio sy'n esbonio'r 'sut' , 'beth' 'pryd' a 'ble' o waith cynghorwyr Gwynedd.

Mae'r fideo y bydd y Cyngor yn ei hyrwyddo trwy ei ffrwd Twitter a Facebook, yn annog unrhyw un sydd â ddiddordeb cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn lleol gael mynediad at becyn gwybodaeth ar-lein a holiadur byr ar wefan y Cyngor: http://socsi.in/bod-yn-gynghorydd_pefKE

http://socsi.in/bod-yn-gynghorydd_qU5Ze




Like Comment Share

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 20/09/2016 |
| **PWRPAS** | • Cyflwyno diweddariad i'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol<br>• Hyrwyddo cyfrifon facebook/Trydar Aelodau etholedig |
| **AWDUR** | Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**1. CEFNDIR**

1.1 Cydnabyddir fod Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd bwysig iawn o gyfathrebu yn y byd sydd ohoni, ac mewn ymateb i hyn mabwysiadwyd 'Protocol ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Gynghorwyr' eisoes,

1.2 Mewn cyfarfod diweddar o Grwp Busnes y Cyngor, trafodwyd y protocol yn sgil ambell ddigwyddiad oedd wedi codi yn ddiweddar yn ymwneud â Chyfryngau Cymdeithasol.

1.3 Adnabu'r Arweinwyr Gwleidyddol fod un egwyddor sylfaenol wrth ymdrin ag eraill, boed wyneb yn wyneb neu ar wefannau cymdeithasol, sef dangos parch at eraill.

1.4 Er fod hyn wedi ei nodi yn fersiwn wreiddiol y protocol, gwnaethpwyd cais i'w amlygu, fel sydd wedi ei ddangos yn ail fersiwn y protocol sydd ynghlwm yn **Atodiad A**.

1.5 Bydd y fersiwn ddiwygiedig o'r protocol yn cael ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor yn dilyn cyfarfod y pwyllgor hwn.

**2. CYFRIFON FACEBOOK/TRYDAR CYNGHORWYR**

2.1 Fel mae'r pwyllgor yn ymwybodol, mae'r Cyngor yn cyhoeddi 'tudalen we' bersonol ar gyfer pob aelod, sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, gwybodaeth cyswllt. Nodir (lle'n hysbys)

- gyfeiriad gohebu,
- rhif ffon catref,
- rhif ffon Symudol a
- chyfeiriad ebost swyddogol 'cynghoryddxxxxx@gwynedd.llyw.cymru'.

2.2 Yn ddiweddar, mae un neu ddau o aelodau wedi gofyn os oes posib cael ychwanegu eu cyfeiriad trydar ac/neu facebook at y manylion hyn, yn ogystal a'i gyhoedi ar eu cardiau busnes.

2.3 Rydym yn ymwybodol fod oddeutu traean o aelodau â chyfrif Trydar (unai fel Cynghorydd xxx neu dim ond eu henwau), a dros hanner yn gwneud defnydd o gyfrif Facebook, eto gyda chyfuniad o rai fel 'Cynghorydd' ac eraill gan ddefnyddio eu henwau yn unig.

2.4 Gwahoddir y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i drafod y buddion a'r risgiau o gyhoeddi gwybodaeth fesul aelod am gyfrifon Trydar/ Facebook ar safle we'r Cyngor ac / neu ar gardiau busnes Cynghorwyr.

**CYNGOR GWYNEDD**

**PROTOCOL AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN GYNGHORWYR**

Egwyddor sylfaenol wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yw dangos parch ar eraill.

**RHAGARWEINIAD**

1. Mae’r Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd pwysig o gyfathrebu mewn cymdeithas heddiw a maent yn newid y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu a rhwydweithio. Mae’r newid hwn yn cynnig llwyfan newydd ar gyfer ymgysylltu, cyfathrebu a gwrando. O ganlyniad, mae’n naturiol bod y newid hwnnw yn effeithio’r modd y mae’r Cyngor yn cysylltu â dinasyddion y sir a hefyd y modd y mae cynghorwyr yn gweithredu.

2. Mae’r Cyngor yn croesawu’r defnydd cynyddol aelodau o’r cyfyngau cymdeithasol ac yn dymuno hwyluso hynny trwy gynnig arweiniad a chefnogaeth briodol. Mae’r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a Safonau y Cyngor yn cydnabod yr angen am arweiniad am yr hyn sydd a sydd ddim yn dderbyniol. Diben y protocol hwn yw i gynnig arweiniad o’r fath ac mae’n gyson â’r rheolau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig.

3. Yn amlwg, y rheol gyffredinol yw y disgwylir yr un safonau ymddygiad os yw aelod ar-lein neu beidio. Yn tanlinellu hyn oll, disgwylir i aelod **ddangos parch at eraill.**

**EGWYDDORION SYLFAENOL**

4. Yr egwyddor sylfaenol yma yw bod “Safon Gwynedd” (gweler Atodiad 1) a’r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr (Atodiad 2) yn berthnasol i unrhyw weithgaredd, yn cynnwys defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol. Felly dylai ymddygiad aelod pan yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol gadw at yr un safonau o ymddygiad aelod ag y byddent yn ymarfer mewn pwyllgor, cyfarfod cyhoeddus neu wrth ohebu â rhywun.

5. Felly, yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol arferol, dylid cofio’r egwyddorion a ganlyn:-
   - Dangos parch at eraill
   - Peidio â datgelu gwybodaeth eithredig neu gyfrinachol
   - Dim bwlio, aflonyddu, erlid na dychryn cyd-aelodau, swyddogion na’r cyhoedd
   - Dim ceisio budd personol
   - Cofio egwyddorion cydraddoldeb
   - Bod yn ofalus rhag penderfynu ymlaen llaw
   - Dim annog ymddygiad sy’n groes i’r protocol hwn gan eraill
   - Bod yn ofalus i beidio â bod yn rhan o achos fendeta personol yn erbyn eraill

**Y CYFLEON A'R RISGIAU**

6. Mae datblygiad y Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnig cyfleon newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda a cheisio ymateb a barn gan drigolion. Mae'r dulliau gwahanol (Facebook, Trydar, Blog ayb) yn cynnig dull sydyn, rhad ac effeithiol o wneud hynny. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gosod defnyddwyr ar flaen y gâd o ran newyddion yn torri. Maent hefyd yn ddulliau sydd yn galluogi gwneud cyswllt â rhai sydd, efallai, heb fod ynghlwm â phrosesau democrataidd o'r blaen.

7. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfryngau all brofi'n hynod ddefnyddiol i'r Cyngor yn gorfforaethol a hefyd i gynghorwyr lleol. Trwy ddefnydd priodol o GYfryngau Cymdeithasol, gall cynghorwyr brofi budd mawr ac mae'r Cyngor yn annog defnydd priodol ohonynt gan gynghorwyr. Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol o'r peryglon a'r risgiau sydd ynghlwm â'u defnydd. Gall camddefnydd o cyfryngau cymdeithasol arwain at anawsterau cyfreithiol arwyddocaol ac mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi llunio cyfarwyddyd i geisio gwarchod rhag hynny.
   (wele https://www.gov.uk/government/news/attorney-general-to-warn-facebook-and-twitter-users-about-contempt-of-court)

**Y CYFRIFOLDEB DROS "GYNNWYS"**

8. Un gwahaniaeth mawr rhwng y cyfryngau cymdeithasol â chyfryngau a llwyfannau eraill yw bod ceidwad unrhyw "safle" yn gyfrifol nid yn unig em eu datganiadau eu hunain ond hefyd am datganiadau gan eraill sydd yn cael eu gwneud ar y safle hynny. Felly, os oes y gwneir datganiad amhriodol, perchennog y "safle" sydd yn gyfrifol am dynnu'r datganiad hynny oddi yno.

9. Yn ogystal, unwaith mae rhywbeth wedi ei gyhoeddi ar wefan gymdeithasol, mae yn yr arena gyhoeddus. Bydd y Cyngor, yn ôl yr angen, yn gofyn i aelodau dynnu deunydd sydd yn tramgwyddo'r protocol hwn yn ôl a bydd methu â gwneud hynny yn groes i'r protocol. Fodd bynnag, dylai aelodau fod yn ymwybodol ei fod yn anodd tynnu cofnod, boent yn ffaith neu'n farn, yn ôl unwaith y maent yn yr arena gyhoeddus a gallant arwain at gamau cyfreithiol yn y pen draw.

**TRAFODAETH "WLEIDYDDOL"**

10. Mae trafodaethau "gwleidyddol" lleol yn medru bod yn rhai cadarn a heriol. Tra mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn bod yn rhaid i aelodau fod â "chroen mwy trwchus" gan bod beirniadau syniadau a barn yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd, mae "Safon Gwynedd" yn ei wneud yn glir na ddylid bod yn sarhaus na'n ddilornus hyd yn oed yn y trafodaethau "gwleidyddol" hynny. Mae'r protocol hwn yn ategu bod y safonau hynny'n berthnasol i ddefnydd aelodau o gyfryngau cymdeithasol.

**Y CYNGHORYDD FEL UNIGOLYN**

11. Fe all cynghorydd sefydlu safleoedd yn ei enw ei hun neu fel "Y Cynghorydd***". Dylai aelodau fod yn ymwybodol bod y protocol hwn yn berthnasol i'r naill senario a'r llall. Gan ei fod yn amlwg bod y ffaith bod unigolyn yn gynghorydd etholedig yn wybodaeth gyhoeddus, dylai aelod fod yr un mor ofalus mewn unrhyw gyfrwng cymdeithasol. Mae'r graddau y bydd y protocol hwn yn cael ei ddefnyddio yn dibynnu ar y cynnwys ond mae'r safonau ymddygiad yn gyson.

**Y DEFNYDD O OFFER Y CYNGOR**

12. Bydd cynghorydd yn medru defnyddio offer y Cyngor ar gyfer cyhoeddi deunydd ar gyfryngau cymdeithasol ond dylai aelodau fod yn fwy gwyliadwrus eto o ran y cynnwys

**DEFNYDD MEWN CYFARFODYDD**

13. Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd o'r Cyngor a'i bwyllgorau. Fodd bynnag, dylid cofio:-

- Dylai sylw pennaf aelod fod ar y drafodaeth sydd ar y gweill ac ar y penderfyniad y mae'n rhaid ei wneud
- Ni ddylid trydar ar unrhyw fater eithredig neu gyfrinachol
- Ni ddylid trydar ar fanylion cyfarfodydd

**GWE-DDARLLEDU**

14. Bydd y Cyngor yn symud maes o law i ddarlledu rhai o'i gyfarfodydd (Cyngor llawn a rhai pwyllgorau) dros y We. Fel rhan o'r datblygiad hynny, byddwn yn annog y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i aelodau o'r cyhoedd ymateb i drafodaethau. Fodd bynnag, bydd hynny'n digwydd trwy "safleodd" swyddogol y Cyngor. Bydd defnydd o gyfryngau gan aelodau etholedig yn unigol yn disgyn o dan paragraff 12 o'r protocol hwn

**HYFFORDDIANT**

15. Fe ddarperir hyfforddiant i aelodau ar y protocol hwn er mwyn arfogi aelodau i wneud defnydd addas a chyfrifol o'r cyfryngau. Mae disgwyliad pendant ar aelodau i wneud defnydd o hyfforddiant o'r fath. Fodd bynnag, mae'n glir bod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r protocol yn gorffwys gyda'r aelod unigol.

**DISGYBLAETH A DELIO Â CHWYNION**

16. Dylid cyflwyno unrhyw gwynion am y drefn i'r Swyddog Priodoldeb. Bydd y Pwyllgor Safonau yn delio ag unrhyw fater disgyblu yn sgil adroddiad am dramgwyddo'r protocol hwn yn ôl ei drefniadau arferol ar ymddygiad aelodau gan gyflwyno argymhellion i'r Cyngor yn ôl yr angen.

**ATODIAD 1 - SAFON GWYNEDD**
**ATODIAD 2 - COD YMDDYGIAD**
**ATODIAD 3 - CANLLAW CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD** | **20 MEDI, 2016** |
| **PWNC** | **CYRFF ALLANOL A RÔL PENCAMPWYR** |
| **PWRPAS** | **Cynnig trefn safonol ar gyfger adrodd yn ôlar waith cyrff allanol** |
| **AWDUR(ON)** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ac Arwel E Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

**Cyrff Allanol**

1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn dewis cynrychiolwyr i wasanaethau ar tua 55 o gyrff allanol, sydd yn amrywio o sefydliadau lleol iawn i gyrff sirol, is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ar ben hynny, mae natur perthynas y Cyngor gyda'r sefydliadau gwahanol hyn yn amrywio hefyd.

2. Nid oes unrhyw drefn ffurfiol ar gyfer adrodd yn ôl o'r cyfarfodydd hynny ac mae hynny yn wendid yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor, yn arbennig yn yr achosion hynny lle gwneir penderfyniadau sydd yn effeithio ar y Cyngor a'i drigolion.

3. Fel y nodwyd, mae natur y cyrff gwahanol yn amrywio a rhaid cofio, pan fo aelod yn mynd yn aelod o gorff allanol sydd yn awdurdod cyhoeddus, yn gwmni neu'n elusen, mae eu cyfrifoldeb yn y lle cyntaf i'r corff hwnnw. Mae hyn yn amlwg iawn lle mae dyletswydd cyfarwyddwr neu ymddiriedolwr i gwmni neu elusen lle y byddai dylanwad corff neu unigolyn arall ar eu penderfyniadau yn anghyfreithiol.

4. Dylai bod trefniadau i adrodd yn ôl fel bod modd i'r Cyngor, yn ehangach, dderbyn gwybodaeth am waith y corff ac, os oes angen a chyfle, ymateb i a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Mae gallu'r Cyngor i weithredu felly yn mynd i amrywio yn ôl y swyddogaeth a ysgwyddir gan yr aelod o fewn trefn llywodraethu y corff allanol.

5. Fel y nodwyd eisoes, mae cryn amrywiaeth ymysg y cyrff allanol a felly, dylai'r trefniadau adrodd adlewyrchu hynny. Mae'r cyrff yn medru amrywio'n fawr o ran:--

   - Natur a chyfansoddiad y corff a'r aelodaeth
   - Y graddau y mae angen arweiniad neu fandad gan y Cyngor i weithredu
   - Y graddau y mae gan y Cyngor fuddsoddiad ariannol yn y corff allanol
   - Y graddau y mae gan y Cyngor gytundebau gyda'r corff allanol
   - Y graddau y mae penderfyniad gan y corff allanol yn debyg o effeithio'n sylweddol ar y Cyngor
   - Y graddau y mae y Cyngor, neu un o'i bwyllgorau, wedi gofyn am adroddiad.

6. Yn Atodiad 1, awgrymir dosraniad o'r cyrff hynny i bedwar categori ac awgrymir y trefniadau adrodd a ganlyn ar eu cyfer:-

| | |
|---|---|
| 1. NID OES ANGEN ADRODD FEL RHEOL | Dim rheidrwydd i adrodd fel y cyfryw ond rhoddir cynnig i aelodau gwblhau templed syml (Atodiad 2) yn crynhoi gweithgaredd y corff dros flwyddyn – a fydd ei rannu gyda'r Aelod Cabinet perthnasol a wedyn ar gael trwy Rhaeadr ac ar Wefan y Cyngor. Byddai hefyd ar gael ar gyfer adroddiad blynyddol yr aelod unigol |
| 2. ADRODD I BWYLLGOR CRAFFU YN ACHLYSUROL | Yn yr achosion hyn, cwblheir y templed (Atodiad 2) unwaith y flwyddyn ac fe'i cyflwynir i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu perthnasol a fydd wedyn yn penderfynu ei gynnwys neu beidio yn ei raglen waith yn ddibynnol ar ofynion y rhaglen waith |
| 3. ADRODD YN ACHLYSUROL I'R CABINET | Yn yr achosion hyn, cwblheir y templed (Atodiad 2) yn amlach nag unwaith y flwyddyn ond yn ôl amserlen a bennir gan y Cabinet ac ystyrrir ei gynnwys neu beidio yn rhaglen waith ffurfiol y Cabinet<br>Yn yr achosion hyn (a chategori 4), awgrymir adrodd i'r Cabinet yn hytrach na Chraffu oherwydd goblygiadau strategol neu gyllidol penderfyniadau'r corff allanol. |
| 4. ADRODD YN RHEOLAIDD I'R CABINET | Yn yr achosion hyn, cwblheir y templed yn ôl amserlen sydd yn cael ei gytuno a'i gyflwyno i gyfarfod ffurfiol o'r Cabinet |

(a) Yn amlwg, ar rai cyrff allanol, mae fwy nag un aelod. O gytuno ar y trefniadau, byddai angen trafod efo'r unigolion sydd yn eistedd ar y cyrff gwahanol i ddewis un o'u plith i gwblhau'r gwaith
(b) Bydd pob adroddiad yn cael ei rannu trwy Rhaeadr ac ar Wefan y Cyngor a hefyd ar gael ar gyfer adroddiad blynyddol yr aelod unigol

**Rôl Pencampwyr**

7. Mae gan y Cyngor amryw o aelodau sydd wedi eu dynodi yn bencampwyr mewn meysydd penodol ac mae'r papur sydd ynghlwm fel Atodiad 3 yn crynhoi'r bwriad pan gafodd y rôl ei ddatblygu yn wreiddiol.

8. Dyma restr o'r pencampwyr presennol a'r portffolios perthnasol:-

| MAES | PENCAMPWR | AELOD CABINET |
|---|---|---|
| Pobl Hŷn | Cyng. Selwyn Griffith | OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |
| Anabledd | Cyng. Peter Read | OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |
| Awtistiaeth | Cyng. Elin Walker Jones | OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |
| Gofalwyr | Cyng. Eryl Jones Williams | OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |
| Datblygu Aelodau | Cyng. Tom Ellis | DIRPRWY ARWEINYDD |
| Craffu | Cyng. Angela Russell | DIRPRWY ARWEINYDD |
| Masnach Deg | Cyng. R Hefin Williams | ECONOMI A CHYMUNED |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyng. Gwen Griffith | TAI, GOFAL CWSMER A LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB |
| Y Gymraeg | Cyng. Craig ab Iago | DIRPRWY ARWEINYDD |
| Llais Plant a Phobl Ifanc | Cyng. Annwen Daniels | PLANT A PHOBL IFANC |
| Bioamrywiaeth | Cyng. Angela Russell | CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO |
| Iechyd Meddwl | Cyng. Beth Lawton | OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |
| Cynaladwyedd | Cyng. Aled Evans | AMGYLCHEDD |
| Busnesau Bach | Lle gwag | ECONOMI A CHYMUNED |

9. Fel y gwelir o'r swydd-ddisgrifiad, penodir y pencampwyr i gynorthwyo Aelodau Cabinet yn benodol trwy gadw llygad ar feysydd arbenigol o fewn portffolios a rhoi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau Cabinet ar y meysydd hynny.

10. Gan fod atebolrwydd y pencawmpwyr i'r Aelodau Cabinet, awgrymir trefn lle y maent yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Aelodau Cabinet (o leiaf yn flynyddol) ac adroddiad ffurfiol (yn defnyddio'r templed yn Atodiad 4) un waith y flwyddyn gan osod yr adroddiad hwnnw yn Rhaeadr ac ar Wefan y Cygor, gan fod ar gael hefyd ar gyfer adroddiad blynyddol yr aelod unigol. Os oes mater sydd yn teilyngu sylw penodol yn ehangach, gellir adrodd yn ffurfiol arno i gyfarfod o'r Cabinet.

11. Ffactor arall i'w ystyried yw bod angen adolygu y budd a ddaw i'r Cyngor o enwebu cynrychiolwyr i'r cyrff allanol hyn i'r dyfodol ac, o enwebu, bod angen hyfforddi cynghorwyr ar eu cyfrifoldebau pan yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol

**Argymhellion**

a) Sefydlu trefn adrodd yn ôl ar gyfer yr holl gyrff allanol y mae'r Cyngor yn enwebu iddynt yn ôl yr angen
b) Cytuno ar drefn adrodd gan y Pencampwyr i'r Aelodau Cabinet unigol ac i'r Cabinet yn ôl yr angen
c) Bod angen archwilio'r budd I'r Cyngor o enwebu i'r cyrff gwahanol cyn Mai 2017 a chynnwys hyfforddiant ar gyfrifoldebau pan yn mynychu cyrff allanol fel rhan o becyn safonol hyfforddi'r cynghorwyr ar ôl yr etholiad nesaf

---

**CATEGOREIDDIO CYRFF ALLANOL**

| **1. NID OES ANGEN ADRODD FEL RHEOL** | **2. ADRODD I BWYLLGOR CRAFFU YN ACHLYSUROL *** | **3. ADRODD YN ACHLYSUROL I'R CABINET** | **4. ADRODD YN RHEOLAIDD I'R CABINET** |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cyngor Cyswllt Cymru | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Grŵp Llandrillo Menai | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | Cydbwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cronfa Addysgol Dr Daniel Williams | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar | Gweithgor Rhanbarthol Agregau Gogledd Cymru | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Fforymau Mynediad Lleol (X3) | Cyngor Cymru i'r Deillion | Grŵp Cydlynu Prifysgol Bangor | |
| Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd | Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr | Mantell Gwynedd | |
| Ymddiriedolaeth Capel Newydd Nanhoron | Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru | Bwrdd Arweiniol Ôl-16 Gwynedd a Môn | |
| Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon | Grwp Amhylchedd Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru | Cymdeithas Llywodraeth Leol | |
| Ymddiriedolaeth Neuadd Talgai | Partneriaeth Biosphere Dyfi | | |
| Cymdeithas Gorchymyn Pysgota Afon Menai | LEADER | | |
| Bwrdd Theatr Ardudwy | Cyd-Bwyllgor Rheoleiddio Dyfarniad Parcio & Thraffig Tu Allan i Lundain | | |
| Canolfan Felin Fach | Taith a TraCC | | |
| Canolfan Noddfa | Cwmni CYNNAL | | |
| Cyngor Cymunedol Sportslot | Cydbwyllgor GwE | | |
| GISDA | Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol, Arbennig | | |
| Pwyllgor Rheoli Lôn Abaty | Rheilffordd Arfordir y Cambrian | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canolfan Nant Gwrtheyrn | Bwrdd Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru | | |
| Cronfa Seiciatrig Gogledd Cymru (Cronfa Ablett) | Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Gyrfa Cymru | | |
| Elusen Dr William Lewis | Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig – Aberystwyth | | |
| Y Ganolfan Porthmadog | Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian | | |
| Galeri Caernarfon Cyf | Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol | | |
| Cyngor Llyfrau Cymru | | | |

* Yn ddibynnol ar raglen waith y Pwyllgor Craffu

**ADRODDIAD CORFF ALLANOL**

| | |
|---|---|
| **ENW'R CORFF ALLANOL** | |
| **CYNRYCHIOLYDD(WYR) Y CYNGOR SIR** | |
| **AWDUR YR ADRODDIAD** | |
| **RÔL O FEWN Y CORFF** | |
| **CYFNOD YR ADRODDIAD** | |
| **NIFER O GYFARFODYDD A YN Y CYFNOD** | |
| **PRIF DESTUNAU A DRAFODWYD** | |
| **MATERION Y MAE ANGEN DWYN SYLW'R CYNGOR ATYNT** | |

**PENCAMPWYR YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

**Pwrpas y ddogfen**

Mae sawl cyngor wedi penodi cynghorwyr yn bencampwyr mewn gwahanol feysydd – yr un mwyaf cyffredin ydi pencampwr pobl hŷn. O bryd i'w gilydd daw cais gan wahanol grwpiau diddorderb arbennig i'r cyngor enwebu un o'i aelodau yn bencampwr ac nid oes bob amser gysondeb rhwng yr hyn a fwriedir i'r gwahanol bencampwyr ei wneud. Pwrpas y ddogfen hon yw ceisio diffinio beth yw ystyr pencampwr yng Nghyngor Gwynedd.

**Pam cael pencampwr?**

Diben cael pencampwyr ydi:

1. I siarad naill ai dros garfanau fyddai heb eu cynrychioli'n llawn fel arall
2. I gadw rhai materion ar flaen gwaith y cyngor er nad oes yr un cynghorydd na phwyllgor yn gyfrifol amdanyn nhw
3. I gynorthwyo Aelod Cabinet gyda'i bortffolio trwy gadw cyswllt rhwng carfannau o ddiddordeb arbennig a'r Cabinet a dod a gwybodaeth arbenigol i'r Aelod Cabinet

**Pwy sy'n dewis pencampwr?**

Lle mae'r maes dan sylw yn fater "gweithredol" h.y. maes sydd o fewn cyfrifoldebau'r Cabinet, yna yr Aelod Cabinet perthnasol sy'n penodi'r pencampwr. Disgwylir y bydd y pencampwr yn cael ei benodi o blith aelodau nad ydynt ar y Cabinet.

Lle mae'r maes dan sylw yn fater i'r Cyngor bydd pencampwr yn cael ei ddynodi yn rhinwedd swydd fel Cadeirydd pwyllgor perthnasol ac os oes rhagor nac un disgwylir iddynt gytuno ymysg ei gilydd pwy fydd y pencampwr.

**Beth yw rôl pencampwr?**

Dyma ddyletswyddau arferol pencampwr:

- Hybu'r maes a chodi ymwybyddiaeth amdano oddi fewn i'r Cyngor
- Gofalu bod y maes yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau neu ddod i benderfyniadau
- Tynnu sylw at y maes a gofalu bod yr Aelod Cabinet a chynghorwyr eraill yn gwybod am yr arferion da
- Ymgysylltu â chyrff allanol sy'n ymwneud â'r maes
- Ymgysylltu â swyddogion a chynghorwyr eraill ynglŷn â'r rôl

- Ymgysylltu â chylchoedd cymunedol sy'n ymwneud â'r maes
- Rhoi adroddiadau i'r Aelod Cabinet am y camau sydd wedi'u cymryd.

Mae’r swydd-ddisgrifiad atodol yn cwmpasu prif ddyletswyddau pencampwr, er y gall fod mân-amrwyiaethau, yn dibynnu ar y maes.

**I bwy mae pencampwr yn atebol?**

Mae pencampwr yn atebol i’r sawl sy’n ei benodi ac i’r Cyngor yn gyffredinol. Disgwylir fod pencampwr yn rhoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith i’r Aelod Cabinet perthnasol ac yn fwy cyffredinol i weddill y cynghorwyr trwy fwletinau gwybodaeth.

Er mwyn osgoi gorgyffwrdd a dyblygu dylai pencampwr gynrychioli’r Cyngor ar gyrff allanol perthnasol

**Swydd-ddisgrifad Pencampwr**

**1. Atebol i**

Yr Aelod Cabinet
Y cyngor llawn

**2. Pwrpas a swyddogaethau**

**2.1 Yn y cyngor**

- Hyrwyddo'r maes dan sylw mewn perthynas â blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth y cyngor
- Cyfleu barn mudiadau a budd-ddeiliaid yn y maes dan sylw i'r Cabinet a'r Cyngor (trwy adroddiadau blynyddol neu fwletinau gwybodaeth)
- Hyrwyddo anghenion y garfan dan sylw ymhlith y rhai sy'n penderfynu ar ran y cyngor
- Cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau'r cyngor i lunio strategaethau, polisïau a rhaglenni gwaith ar gyfer y maes dan sylw
- Bod yn effro i bob mater sy'n ymwneud â'r maes
- Cyfrannu ynghylch arferion da a gwella gwasanaethau/swyddogaethau sy'n ymwneud â'r maes drwy'r amser
- Darparu gwybodaeth arbenigol i'r Aelod Cabinet am y maes dan sylw
- Ymgysylltu â'r cynghorwyr ynglŷn â'r maes dan sylw megis mynychu cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu, y cabinet a'r cyngor llawn
- Codi ymwybyddiaeth o'r maes a chymryd rhan flaengar yn hyfforddiant cynghorwyr a swyddogion lle bo'n berthnasol i'r maes hwnnw

**2.2 Yn y gymuned**

- Tynnu sylw at y maes yn y gymuned.
- Sefydlu trefniadau ymgysylltu rheolaidd ac effeithiol gyda dinasyddion a mudiadau cymunedol mewn materion sy'n ymwneud â'r maes hwnnw
- Arwain a chynnal mentrau lleol sy'n ymwneud â'r maes dan sylw
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn ymwneud â'r maes dan sylw
- Cyfleu ac egluro barn a phenderfyniadau'r Cyngor i fudd-ddeiliaid a mudiadau yn y maes dan sylw
- Ymgyfarwyddo â'r maes dan sylw, ei anghenion a'i flaenoriaethau er mwyn pwyso a mesur y gwahanol ofynion a chynnig cyngor ar oblygiadau unrhyw weithredu

**3. Gwerthoedd**

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd mewn swydd gyhoeddus:
Cynnal ac arddangos safonau uchel o ymddygiad

ATODIAD 4

**ADRODDIAD PENACWMPWR**

| | |
|---|---|
| **TEITL Y MAES** | |
| **ENW'R AELOD** | |
| **YR AELOD CABINET** | |
| **CYFNOD YR ADRODDIAD** | |
| **GWAITH A GYFLAWNWYD DROS Y CYFNOD** | |
| **MATERION Y MAE ANGEN DWYN SYLW'R AAELOD CABINET ATYNT** | |

# Eitem 11

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **20fed Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiadau Blynyddol Aelodau (2015/16)** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015/16 a chynnal trafodaeth fuan am y cyfleoedd a'r rhwystrau at 2016/17** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol**<br>**Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd ar y Cyngor i wneud trefniadau i aelodau fedru cynhyrchu adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno. Pwrpas yr adroddiadau yw cefnogi cyfathrebu rhwng aelodau etholedig a'r cyhoedd, a hynny trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau.

1.2 Un ffactor pwysig i'w gadw mewn cof yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn a drafodwyd gan y Pwyllgor hwn yn y gorffennol. Roedd y papur gwyn yn ymgynghori ar newid statws adroddiadau blynyddol i fod yn statudol. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddo gytuno y dylai cyhoeddi adroddiadau o'r fath fod yn fandadol ar bob aelod. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol ein bod yn disgwyl diweddariad ac arweiniad pellach ar y materion gan y Gweinidog newydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

1.3 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

## 2. ADRODDIADAU 2015/16

2.1 Tros y blynyddoedd diwethaf bu i'r niferoedd Aelodau etholedig sydd wedi dewis cyhoeddi adroddiadau blynyddol gynyddu, ond yn ystod y cyfnod 2015/16, mae'r nifer wedi lleihau.

| | |
|---|---|
| 2012/13 | 8 adroddiad (peilot o'r drefn) |
| 2013/14 | 26 adroddiad (gan ddefnyddio templed y tro cyntaf) |
| 2014/15 | 39 adroddiad |
| 2015/16 | 29 adroddiad |

2.2 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx

2.3 Wrth i Aelodau lunio eu hadroddiadau, derbyniwyd rhai sylwadau sydd wedi eu crynhoi isod.

- Templed ar gyfer yr adroddiadau.
  Roedd rhai Aelodau yn teimlo fod y templed yn rhy gaeth (gweler **Atodiad B**) ac yn eu gorfodi i gynhyrchu adroddiad mewn modd llai lliwgar na'r hyn y byddent yn ei gynhyrchu yn naturiol ee rhywfaint o liw a lluniau. Mae **Atodiad**

**C** yn cynnwys esiampl o Adroddiad Blynyddol sydd wedi ei gynhyrchu gan Y Cynghorydd Dafydd Meurig sydd â'r cynnwys yn cyd-fynd â'r canllawiau, ond nad yw ar y fformat cyfredol.

- Gwaith golygu adroddiadau
  Bu peth gwaith golygu a thrafodaethau gyda'r Aelod perthnasol yn dilyn y gwaith golygu, gyda phob aelod yn fodlon gyda'r cynnwys cyn ei gyhoeddi.

- Presenoldeb mewn pwyllgorau.
  Cafwyd peth rhwystredigaeth fod y data a gyhoeddwyd yma yn wahanol i beth oedd yr Aelodau wedi disgwyl ei weld o'u cofnod personol.

- Data yn y tabl hyfforddiant
  Cafwyd peth rhwystredigaeth fod y data a gyhoeddwyd yma yn anghywir ac unwaith eto yn wahanol i'r hyn a nodwyd gan yr Aelod unigol. Yn ychwanegol cwestiynwyd a oes diben nodi nifer o oriau o hyfforddiant a fynychwyd?

- Modern.gov .
  Yn anffodus, ni fu'n bosib sicrhau fod Modern.Gov wedi gallu cynhyrchu yr ystadegau uchod (presenoldeb cyfarfodydd a hyfforddiant) yn awtomatig. Sgil effaith hyn oedd y gyrrwyd y templed allan I Aelodau yn wag ac yna llenwi y wybodaeth am hyfforddiant a phresenoldeb ar ôl ei derbyn yn ôl - efallai i hyn effeithio ar y nifer a ddanfonodd ymatebion yn eu hol.

  Noder fod datblygiadau wedi digwydd gan y Tim Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cywiro'r sefyllfa yma, a bellach mae data am bresenoldeb mewn fforymau ardal, cyfarfodydd paratoi craffu, a chyfarfodydd ymchwiliadau craffu yn cael ei gyhoeddi trwy Modern.gov. ac felly ar gael yn syth ar y safle we.

- Amserlen.
  Nodwyd bod yr amserlen eleni wedi bod yn dynn, yn enwedig o ystyried bod Cynghorwyr yn gweithio tuag at gyfnod y gwyliau.

- Materion cyffredinol
  Mae gwersi i'w dysgu gan y tîm wnaeth y gwaith ar gyfer gwneud y gwaith yn y dyfodol ac mae cynlluniau ar y gweill eisoes i newid y drefn.

2.4 Ar hyn o bryd rydym yn parhau i ddisgwyl arweiniad terfynol ar y gofynion ar gyfer adrodd yn 2017 gan y Gweinidog Mark Drakeford. Noder y bydd y cyfnod yn cyd-fynd â chyfnod etholiadau Llywodraeth Lleol. Yr arweiniad a dderbyniwyd yn flaenorol oedd na fyddai aelodau yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol hyd ar ôl yr etholiadau, sef ym Mehefin / Gorffennaf 2017 yn dilyn eu ail-ethol.

**3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y sylwadau uchod a chynnig sylwadau agoriadol ar y drefn tra fo pethau'n ffres yn y cof.

## ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

### Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o’r Rhan honno’n ymwneud â’r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o’r bennod honno’n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o’r Mesur. Mae’r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

### Yr hyn sy’n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o’u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o’r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o’r weithrediaeth. Rhaid i’r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy’n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i’r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i’w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i’r canllawiau hyn.

### Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol - Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy’n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i’w llunio ac erbyn pryd i’w llunio.

Mae’r Mesur, yn adran 8 a’r adrannau sy’n dilyn, yn nodi mai’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy’n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, fel y’u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i’w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i’r categori hwn. Mae’r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi’i hun, hyd yn oed os yw’n cyfeirio at weithgareddau’r cynghorydd fel aelod o’r weithrediaeth. Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013 fan bellaf.

### Cyhoeddi adroddiadau

Mater i’r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i’r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy’n dangos manylion aelodau unigol. Nid oes disgwyl i’r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn,

ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

**Cynnwys yr adroddiadau**

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.
Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:
- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd.

**Atodiad B – Templed Adroddiad Cyfredol**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16**

**Cynghorydd:** **Grŵp:**

**Ward:**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
*Dylid nodi yma y rolau a chyfrifoldebau ar wahanol bwyllgorau'r Cyngor*.

**Gweithgareddau etholaethol:**
*Cyfle i nodi ffeithiau am weithgaredd sydd wedi digwydd yn eich etholaeth yn ystod 2015/16*.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
*Ee Cadeirydd Cyngor Cymuned*

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | NIFER CYFARFODYDD* | PRESENNOL | YMDDIHEURO | ABSENNOL |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16

Canran Presenoldeb: XX%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:**
*Dylid nodi rhesymau dilys yma*

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
*Ee Fforwm Craffu, Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ôl-16*
*Gweithdy Cynllun Strategol, Gweithdy Arbedion*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol neu'r cyfarfodydd canlynol:**

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Cyfanswm nifer o oriau:**

**Atodiad C – Esiampl o Adroddiad Blynyddol Ble Ni Ddefnyddiwyd y Templed**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

Cynghorydd Dafydd Meurig



Ward Arllechwedd

Pwrpas yr adroddiad yma yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Rwyf yn aelod o'r Cabinet ers Ionawr 2015, gyda chyfrifoldeb dros Eiddo, Trafnidiaeth, Cynllunio, a Gwarchod y Cyhoedd

## Prif Weithgareddau Etholaethol

**Llifogydd:** Yn dilyn llifogydd San Steffan 2015, llwyddais i berswadio Prif Weinidog Cymru i addo ariannu Cynllun Atal Llifogydd Talybont / A55 gwerth £1.9 miliwn. Mae'r gwaith wedi dechrau a bydd wedi ei gwblhau erbyn Awst 2016.

**Economi:** Llwyddiant wrth ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i drafod gyda datblygwyr sydd â diddordeb mewn sefydlu busnesau ar ystâd Parc Bryn Cegin.

**Llinellau Ffôn:** Llwyddiant wrth gael gadarnhad gan BT eu bod am wella'r ddarpariaeth rhwng Llanllechid ac Abergwyngregyn.

**Foel Ogwen:** Wedi cael addewid gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd y byddant yn dymchwel garejis Foel Ogwen, er mwyn ehangu'r cae chwarae. Yn dal i bwyso arnynt i symud ymlaen i wneud y gwaith o fewn y flwyddyn nesaf.

**Cynllunio:** Cynrychioli etholwyr gyda materion cynllunio yn Abergwyngregyn, Llanllechid a Phorth Penrhyn.

**Cymorthfeydd:** Cynnal cymorthfeydd rheolaidd gydag Alun Ffred Jones AC a Hywel Williams AS yn Abergwyngregyn, Llandygái a Thalybont.

**Cyffrediniol:** Rhoi cymorth i nifer o etholwyr gyda materion megis digartrefedd, tipio slei bach, torri coed, clirio afonydd, biniau baw ci, caeau chwarae, a gwlau cocos Aber Ogwen.

## Prif Weithgareddau Cymunedol

**Partneriaeth Ogwen:** Cadeirydd y cwmni cymunedol sydd wedi dod a gwasanaethau yn ôl i ardal Dyffryn Ogwen. Bellach mae'r cwmni'n cyflogi tri pherson lleol, ac wedi agor siop gymunedol ym Methesda - Siop Ogwen - drwy gydweithrediad â Neuadd Ogwen.

**Ynni Ogwen:** Cyfarwyddwr cwmni cymunedol sydd wedi llwyddo i godi bron i hanner miliwn o bunnau'n lleol, i ddatglybu cynllun trydon dŵr cymunedol ar yr Afon Ogwen. Mae'r gwaith adeiladu ar fin dechrau.

**Cwmni Adwy:** Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y cwmni nid-am-elw sy'n gosod eiddo ar rhent fforddiadwy i fusnesau lleol yn hen ardaloedd chwareli Gwynedd.

**Balchder Bro:** Wedi ymuno gyda'r criw gwirfoddol sy'n tacluso a chasglu ysbwriel o gwmpas yr ardal, a bum yn helpu i osod basgedi crog ar eiddo yn stryd fawr Bethesda.

**Eryrod Eira:** Aelod o'r grŵp cymunedol sy'n clirio palmentydd Dyffryn Ogwen pan fo eira.

**Chwarel y Penrhyn:** Aelod o bwyllgor cyswllt sy'n rhannu gwybodaeth rhwng y Chwarel a'r gymuned.

**Llandygái:** Aelod o bwyllgor Neuadd Talgái. Yn ystod y flwyddyn bum yn helpu gyda chinio Nadolig pensiynwyr fy ward.

**Ysgolion:** Bu i mi wasanaethu ar Gorff Llywodraethu Ysgol Llandygái yn ystod y flwyddyn.

## Presenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 / 5 |
| Y Cabinet | 9 / 10 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 1 / 2 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 1 / 1 |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | 3 / 3 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cadeirydd) | 4 / 4 |
| Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cadeirydd) | 5 / 5 |
| Fforwm Ardal Bangor-Ogwen | 2 / 3 |
| Pwyllgor Rheoli Traeth Lafan (Cadeirydd) | 1 / 1 |
| Bwrdd Trafnidiaeth Canolbarth Cymru | 2 / 2 |
| Bwrdd Trafnidiaeth Gogledd Cymru | 2 / 2 |
| Gweithgor Cae Ceffyl | 1 / 1 |
| **Canran Presenoldeb** | **90%** |

## Sesiynau Eraill

**Bu i mi gymryd rhan yn y canlynol:**

Cynhadledd Cynllunio Cymru, Caerdydd
Gweithdai Her Gwynedd
Sesiwn Strategaeth Pobl Hŷn
Seminar Sefyllfa Ariannol y Cyngor
Sesiynau gwybodath Grid Cenedlaethol
Codi ymwybyddiaeth Deddf Cynllunio Cymru
Seminar Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Grŵp Llywio anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr
Ymchwiliad i gytundebau cynllunio Adran 106
Gweithdy ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Ymgynghori Cynllunio - TAN20

## Hyfforddiant

**Cyfanswm nifer o oriau** **xx**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **20 Medi 2016** |
| **PWNC** | **Rhaglen waith ddrafft** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno rhaglen waith ddrafft ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor er mwyn blaen-raglennu gwaith y flwyddyn.** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae rhaglennu gwaith ar gyfer unrhyw faes yn cael ei ystyried fel ymarfer da. Mae'n golygu y gellir cynllunio gwaith yn fwy effeithiol a sicrhau y rhoddir ystyriaeth amserol a phriodol i faterion sydd o bwys i aelodau wrth sicrhau cefnogaeth briodol iddynt lwyddo i gyflawni yn llwyddiannus yn eu rolau. Mae hefyd yn golygu fod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd am gael ei drafod a phryd.

2. Fodd bynnag, mewn byd sy'n prysur newid, mae'n hanfodol fod unrhyw flaen-raglen yn un byw – hynny yw, fod y blaen-raglen yn gallu cael ei addasu a'i newid ar unrhyw adeg petai blaenoriaethau newydd, nad ydym yn ymwybodol ohonynt yn gyfredol, yn codi ac angen trafodaeth neu ystyriaeth gan y Pwyllgor ar adeg penodol.

3. Cyflwynir isod ddrafft o'r materion i'w cynnwys ar y blaen-raglen waith, ynghyd ag argymhelliad o'r amserlen.

**SYLWADAU**

4. Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn

| Rhif | Eitem | Beth mae'r Pwyllgor i'w wneud? |
|---|---|---|
| 14eg Mehefin 2016 | | |
| Gohirwyd y cyfarfod. Cyfarfu'r Grwp Ffocws Etholiadau 2017 yn lle er mwyn iddynt gychwyn ar y gwaith pwysig o baratoi. | | |
| 20fed o Fedi 2016 | | |
| 1. | Adroddiad cynnydd gan Grwp Ffocws Etholiadau Mai 2017 | Trafod yr adroddiad a derbyn sylwadau'r aelodau ar y cynlluniau drafft. |
| 2. | Adroddiad diweddaru gan yr Is-grwp amrywiaeth. Cyflwyno diweddariad o waith y grwp a'r rhaglen waith a luniwyd. | Trafodaeth ar y datblygiadau gan yr is-grwp a barn ar y cyfeiriad gan y Pwyllgor. |
| 3. | Adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Cyfle i dderbyn gwybodaeth am waith y Pwyllgor ac i holi unrhyw gwestiynau |
| 4. | Polisi Cyfryngau Cymdeithasol | Derbyn diweddariad a thrafodaeth am gyfrifon Facebook a Trydar |
| 5. | Adroddiadau blynyddol gan Aelodau – adrodd nol ar gyflawniad adroddiadau 2015/16 | Derbyn gwybodaeth |
| 6. | Cyrff allanol – trefniadau adrodd ar wahanol gyrff | Trafodaeth ar y drefn. |
| 7. | Rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Ystyried cynnwys y rhaglen waith ar gyfer 2016/17 |
| 29ain Tachwedd 2016 | | |
| 8. | Adroddiad cynnydd gan Grwp Ffocws Etholiadau Mai 2017 | Diweddariad ar yr adroddiad yn 1 uchod. |
| 9. | Gwe-ddarlledu. Adrodd ar y flwyddyn a fu a thrafod y ffordd ymlaen. | Ystyried y ffordd ymlaen ynghylch gwe-ddarlledu a'r gost ynghlwm. |
| 10. | Mynychu o bell. Derbyn diweddariad ar y gofynion ac unrhyw ddatblygiadau yng Ngwynedd. | Trafod gyda'r Pwyllgor o ran eu dymuniadau ar y ffordd ymlaen yng Ngwynedd. |
| 11. | Siarter Aelodau. | |
| 12. | Modern Gov – adrodd ar ddatblygiad y rhaglen waith | Ystyried y ffordd ymlaen. |
| 4ydd Ebrill 2017 | | |
| 13. | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor llawn – cyflwyno drafft o adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor fydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn. | Asesu llwyddiannau a gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo gan y Pwyllgor. |

Mae'n bur debyg y bydd materion eraill angen sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hefyd, ee diweddariad gan y Comisiwn Ffiniau Etholiadol.